



Dinas a Sir Abertawe

Cofnodion Cyfarfod y **Panel Perfformiad Craffu - Addysg**

O bell drwy Microsoft Teams

Dydd Mercher, 15 Gorffennaf 2020 am 2.00 pm

Yn Bresennol: Y Cyngorydd L R Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Y Cyngorydd(wyr)

A M Day
D W Helliwell
S M Jones

Y Cyngorydd(wyr)

S J Gallagher
B Hopkins
M A Langstone

Y Cyngorydd(wyr)

L S Gibbard
L James
L J Tyler-Lloyd

Aelodau

Cyfetholedig(wyr)

D Anderson-Thomas

Aelodau

Cyfetholedig(wyr)

A Roberts

Hefyd yn bresennol

Jennifer Raynor

Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau

Swyddog(ion)

Liz Jordan
Helen Morgan-Rees
Nick Williams

Swyddog Craffu
Pennaeth Cyflawniad a Phartneriaeth Addysg
Cyfarwyddwr Addysg

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cyngorydd(wy): C Anderson ac M Durke

1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Datganodd y Cyngorydd Mike Day a'r Cyngorydd Susan Jones gysylltiad personol ag Eitem 6.

2 Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

3 Llythyrau a'r Cofnodion

Ystyriodd y Panel lythyrau a chofnodion o gyfarfodydd blaenorol a chytunodd ar gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 13 Chwefror, 18 Chwefror a 12 Mawrth 2020 fel cofnod cywir.

Bu'r Panel yn ymweld ag Ysgol Gyfun Pentrehafod ar 12 Mawrth. Dywedodd y Cadeirydd fod yr holl waith a wnaed yn yr ysgol a pherfformiad y staff wedi creu argraff ar y Panel.

4 **Cwestiynau Gan y Cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd.

5 **Cyflwyniad - Diweddariad i Wasanaethau Penodol am Bandemig Covid-19**

Cyflwynodd y Cynghorydd Jennifer Raynor, Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau, Nick Williams, y Cyfarwyddwr Addysg a Helen Morgan-Rees, Pennaeth Cyflawniad a Phartneriaeth, yr wybodaeth ddiweddaraf am bandemig COVID-19 mewn perthynas ag addysg, ac atebon nhw gwestiynau'r panel.

Pwyntiau i'w trafod:

- Diolchodd y Panel i benaethiaid, athrawon a staff cymorth, ac i'r Cyfarwyddwr Addysg a'i dîm am eu gwaith ers dechrau'r pandemig, a diolchodd hefyd i'r disgyblion a oedd wedi ymateb i'r her.
- Nododd y Panel y gwaith arloesol a wnaed gan nifer o ysgolion wrth gynhyrchu cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gyfer y GIG a chymunedau lleol
- Mae'r adran wedi cadw mewn cysylltiad â thua 140 o blant sydd mwyaf agored i niwed yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud. Bydd disgyblion diamddiffyn y bydd angen iddynt barhau i weithio o bell am gyfnod amhenodol.
- Holodd y panel a oedd y system wedi gallu ymdopi â dysgu o bell. Hysbyswyd nad oedd unrhyw broblemau. Hygyrchedd yn fwy o broblem. Wedi cymryd amser i gael dyfeisiadau allan i deuluoedd nad oedd ganddynt ddyfeisiau TGCh.
- Roedd y Panel yn cwestiynu lefel yr ymgysylltu drwy ddysgu digidol. Roedd ymgysylltu gwybodus yn anghyson. Holodd yr ysgolion rieni ynghylch beth oedd y rhwystrau, ac ymatebwyd i'r adborth.
- Panel yn pryderu nad yw pethau da a ddysgwyd drwy ddysgu digidol newydd o bell yn cael eu colli. Un o'r gwersi mwyaf a ddysgwyd yw bod angen parhau i ddatblygu strategaeth ddigidol a rhoi mwy o hyfforddiant ar waith.
- Cynyddodd lled band eang pob ysgol yn sylweddol cyn i'r cyfyngiadau symud gael eu cyflwyno. Os oes disgwyl i ddisgyblion barhau i weithio yn ddigidol, bydd angen edrych ar wella'r manau du mewn rhai ardaloedd yn Abertawe sydd â phroblemau gyda WIFI.
- Holodd y Panel ynghylch y berthynas waith â'r gwasanaethau cymdeithasol, sut rydym yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng gofal cymdeithasol ac addysg, ac a oes angen rhagor o integreiddio. Cadarnhaodd y swyddogion fod yr argyfwng wedi eu gorfodi i weithio mewn ffordd ychydig yn wahanol a chafwyd llawer o integreiddio yn ystod y pandemig a fydd yn parhau.
- Holodd y Panel ynghylch parodrwydd ysgolion i ymdopi â chynnydd yn y galw gan ddisgyblion a fydd yn bryderus pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol amser llawn ym mis Medi. Clywyd ei fod yn anodd mesur y galw. Bydd yr adran yn ailgyhoeddi canllawiau ar sut i ddychwelyd i'r ysgol yn llwyddiannus. Bydd disgyblion sy'n fwy agored i niwed a byddant yn cael eu monitro'n ofalus. Bydd

rhagor o hyfforddiant yn cael ei gynnig i staff, gan gynnwys hyfforddiant mewn profedigaeth. Bydd yr adnoddau dan straen.

- Holodd y Panel a fyddai gweithiwr awdurdod lleol yn ymweld ag ysgolion y tymor nesaf i wirio iechyd a hylendid. Cadarnhawyd y cysylltwyd â 100% o ysgolion yn Abertawe eisoes ynghylch iechyd a diogelwch, roedd Swyddog Iechyd a Diogelwch wedi ymweld â 90% o ysgolion, a chafwyd sgwrs ffôn gyda'r gweddill. Roedd gweithdrefn prawf legionella hefyd yn cael ei chynnal ym mhob ysgol yr oedd ei hangen arni.
- Trafodwyd cymorth i ddisgyblion difreintiedig a oedd ar eu colled yn ystod y cyfyngiadau symud. Roedd rhywfaint o'r amser gwirio a dal i fyny mewn ysgolion yn galluogi disgyblion difreintiedig i fynd i mewn a dal i fyny gyda'u gwaith. Mae ysgolion wedi gwirio'r holl ddisgyblion i sicrhau nad ydynt yn colli tir o ran eu haddysg. Ym mis Medi bydd cyfnod pontio i sicrhau bod pawb yn cael yr hyn sydd ei angen arnynt.
- Angen bod yn ymwybodol o les staff. Bydd yn gyfnod anodd o ddysgu wrth fynd yn ôl i'r ysgol a bydd y ffordd y caiff hyn ei gefnogi yn allweddol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer staff ychwanegol ond nid oes eglurder eto ynghylch sut y caiff hyn ei ddarparu na beth y mae'n ei olygu i bob ysgol.
- Holodd y Panel a fyddai ysgolion a oedd yn gweithredu fel canolfannau yn ystod y cyfyngiadau symud yn cael iawndal ariannol am wneud hynny.
- Mae'r adran yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r Swyddfa Gartref i gynorthwyo teuluoedd ceiswyr lloches i sicrhau cyllid drwy gardiau arbennig ar gyfer prydau ysgol am ddim, ac roedd yr adran yn gallu gweithio gyda disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Panel yn pryderu ynghylch dychwelyd i'r ysgol a gofynnodd am sicrwydd y bydd dull gweithredu strwythuredig ar gael. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg y bydd dull graddol o ddychwelyd am y pythefnos cyntaf ond bydd pob ysgol yn Abertawe ar agor yn llwyr o 14 Medi ymlaen, yn ôl cyfarwyddyd Lywodraeth Cymru.

Camau Gweithredu:

- Adran i roi cadarnhad ynghylch sefyllfa ariannol ysgolion a oedd yn gweithredu fel canolfannau yn ystod y cyfyngiadau symud
- Ychwanegu at raglen waith y dyfodol 'Effaith COVID-19 wrth symud ymlaen'.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.10pm.